| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Gorffennaf 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Datganiad Cyfrifon Drafft 2012/13** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu trosolwg o'r Datganiad Cyfrifon drafft 2012/13 a'r broses sy'n sail iddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Dirprwywyd cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd a fydd yn cael eu cyflwyno ar 27 Medi 2013. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynwyd yn y cyfrifon drafft (copi i ddilyn fel Atodiad 1).

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'n ddyletswydd statudol ar y cyngor i gynhyrchu datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo a gymeradwywyd. Mae'n rhaid i gyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y cyngor. Mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Bydd y cyfrifon drafft wedi'u gorffen erbyn 28 Mehefin. O ystyried swyddogaeth y Pwyllgor o ran cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, mae'n fuddiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg yn y cam drafft er mwyn eu hystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

Caiff gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir barn broffesiynol oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, fel swyddogion cyfreithiol, prisio eiddo, AD a phensiynau.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael sicrwydd bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu cyfrifon yn gadarn.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai'r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na byddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.